



Lynne Neagle AC
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru

25/01/2017

Annwyl Ms Neagle AC,

Ymchwiliad: Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle hwn i gyfrannu at ymchwiliad y pwyllgor i addysg a dysgu proffesiynol athrawon.

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Cyfrannir y sylwadau isod yn unol â rôl y Comisiynydd dan Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i roi cyngor a chyflwyno sylwadau i unrhyw berson.

Yn ei hymgyngoriad ar ei strategaeth ddrafft: 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050', pwysleisia Llywodraeth Cymru bwysigrwydd y system addysg o ran creu siaradwyr Cymraeg y dyfodol. Cyflwynna'r bwriad o gynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon a'r ymarferwyr blynyddoedd cynnar sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Adlewyrcha'r egwyddor hon alwad yr Athro Donaldson, yn ei adolygiad *Dyfodol Llwyddiannus* (2015), am ymestyn capasiti athrawon yn y Gymraeg er mwyn cryfhau lle'r iaith yn y cwricwlwm.

Ceir data am y capasiti presennol yn y *Crynodeb Ystadegau Blynyddol* diweddaraf gan Gyngor y Gweithlu Addysg (2016). Nodir mai 33.3% o'r athrawon ysgol a gofrestrodd gyda'r Cyngor sy'n siaradwyr Cymraeg. Cyfran lai o'r athrawon ysgol hynny, 27.4%, sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Dengys yr un cyhoeddiad fod y capasiti wedi aros yn gyson ers 2015, pan oedd 33.1% o'r athrawon yn siaradwyr Cymraeg a 27.3% yn gallu addysgu trwy gyfrwng yr iaith.

Mae Estyn wedi tynnu sylw at anawsterau recriwtio staff ysgol sy'n siarad Cymraeg, gan nodi fod prinder athrawon mewn meysydd pwnc penodol, megis y gwyddorau. Trafodir y sefyllfa hon yn ei adroddiad, *Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol* (2016). Cyfeirir at yr un anawsterau yn adroddiad cwmni Arad, *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (2016).

Noda Llywodraeth Cymru, yn ei *Bwletin Ystadegol: Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru, 2014/15*, fod 20% o'r myfyrwyr a gwblhaodd hyfforddiant o'r math yng Nghymru wedi dilyn cwrs a oedd naill ai wedi eu galluogi i addysgu'n ddwyieithog neu wedi arwain at dystysgrif ffurfiol o addysg ddwyieithog. Roedd y gyfran un pwynt canran yn is nag yn 2013/14. Yn y cyd-destun hwnnw, nodaf bryder Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru nad oes digon o siaradwyr Cymraeg yn cael eu hyfforddi i fod yn athrawon er mwyn caniatáu cyflawni gweledigaeth y Llywodraeth i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Bydd angen cynllunio gofalus a gweithredu cadarn er mwyn sicrhau cynnydd yn nifer yr athrawon newydd sy'n hyfforddi i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac i dargedu'r pynciau sy'n destun prinder neilltuol. Bydd angen yn ogystal gefnogi sgiliau iaith y gweithlu presennol, gan gynnwys yr athrawon sy'n gallu siarad Cymraeg ond nad ydynt yn gallu addysgu trwy gyfrwng yr iaith. Yn y cyd-destun hwnnw, nodaf farn Estyn, yn yr adroddiad uchod, fod cyrsiau Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu'n gadarnhaol at wella ansawdd a chapasiti'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Canmolir yr un cynllun yn adroddiad cwmni Arad, sy'n galw am ddatblygiad proffesiynol parhaus priif-ffrwd er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg.

Dylid ystyried rôl y consortia addysg rhanbarthol yng nghyd-destun hybu datblygiad proffesiynol a chyfrannu at y gwaith o gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofynnaf i'r pwyllgor ystyried y materion uchod wrth gynnal ei ymchwiliad, gan gadw mewn cof ddatganiad y Llywodraeth, yn ei strategaeth ddrafft ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg, mai'r cam cyntaf angenrheidiol fydd creu cyflenwad digonol o athrawon i addysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Diolch yn fawr eto am y cyfle i gyfrannu at yr ymchwiliad. Pe hoffech drafod y mater ymhellach byddai pob croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg